O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 1351 (Cy.127)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2009

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000. Mae'r Gorchymyn hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor") gynnal cofnodion sy'n ymwneud â chategorïau penodedig o bersonau.

Mae'r diwygiadau fel a ganlyn—

- ychwanegwyd at y categori o bersonau y mae'n rhaid i'r Cyngor gadw cofnodion amdanynt unrhyw athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi'r gorau i'w fonitro neu i'w monitro o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;

- ychwanegwyd at yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y cofnodion a gedwir gan y Cyngor y canlynol—

  — a yw person yn cael ei fonitro neu wedi peidio â chael ei fonitro o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006,

  — a yw person wedi'i wahardd o dan y Ddeddf honno,

  — telerau unrhyw gyfyngiad neu waharddiad a osodir gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon,

  — telerau unrhyw gyfyngiad neu waharddiad a osodir gan An

Chomhairle Mhúinteoireachta neu Gyngor Addysgu Gweriniaeth Iwerddon.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 1351 (Cy.127)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2009

Gwnaed *2 Mehefin 2009*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *4 Mehefin 2009*

Yn dod i rym *yn unol ag erthygl 1(2)*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) a (4) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), mae Gweinidogion Cymru, gan eu bod o'r farn y caiff Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, o roi sylw i'w amcanion cyffredinol, gyflawni'n briodol y swyddogaethau ychwanegol a roddir iddo drwy hyn ac, yn unol ag adran 7(2), ar ôl cynnal unrhyw ymgynghoriad y mae'n ymddangos iddynt ei fod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2009.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2009 ac eithrio erthygl 2(2)(a) a (3)(b) a ddaw i rym ar 12 Hydref 2009 ac erthygl 2(2)(b) a (3)(a) a ddaw i rym ar 26 Gorffennaf 2010.

(**1**) 1998 p.30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys o ran Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

2.—(1) Mae Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000(**1**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 o'r Atodlen,

(a) ym mharagraff 2 yn lle "adran 3(3)(a) i (c)" rhodder "adran 3(3)(aa), (b)";

(b) ar ôl paragraff 3 mewnosoder y canlynol —

"3A. Athrawon cymwysedig y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi'r gorau i'w monitro yn y modd a grybwyllir yn adran 24 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**2**) yn unol ag adran 26 o'r Ddeddf honno.".

(3) Yn Rhan 2 o'r Atodlen,

(a) ar ôl paragraff 19 mewnosoder y canlynol -

"19A. A yw'r person yn ddarostyngedig i fonitro'n unol ag adran 24 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, ac os na, a yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi'r gorau i fonitro'n unol ag adran 26 o'r Ddeddf honno.";

(b) ar ôl paragraff 22 mewnosoder y canlynol –

"22A. Os yw'r person wedi'i wahardd o weithgaredd a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006), datganiad i'r perwyl hwnnw.

(c) ar ôl paragraff 23B mewnosoder y canlynol —

"23C. Telerau unrhyw gyfyngiad neu fanylion unrhyw waharddiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r person o ganlyniad i gamau disgyblu a gymerwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

23D. Telerau unrhyw gyfyngiad neu fanylion unrhyw waharddiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r person o ganlyniad i gamau disgyblu a gymerwyd gan An Chomhairle Mhúinteoireacht neu'r Cyngor Addysgu a sefydlwyd o dan adran 5 o Ddeddf y Cyngor Addysgu, 2001(**3**) (corff y mae ganddo swyddogaethau sy'n cyfateb i rai'r Cyngor mewn perthynas â Gweriniaeth Iwerddon).".

(**1**) O.S. 2000/1941 (Cy.139), a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/2497 (Cy.201), O.S. 2005/68 (Cy.6) ac O.S. 2006/1341 (Cy.132).
(**2**) 2006 p.47.
(**3**) Rhif 8, 2001.

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

2 Mehefin 2009